community transport association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL

Pecyn Recriwtio

Cyfarwyddwr Cymru

Croeso

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â'r tîm yn y Gymdeithas Cludiant Cymunedol (CTA). Mae cludiant cymunedol yn cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol, bod yn rhan o'u cymunedau a chael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau lleol.

Mae gan ddarparwyr cludiant cymunedol stori wych i'w hadrodd a gwaith y CTA yw eu helpu i adrodd y stori honno a'u cynorthwyo i ddatblygu gwasanaethau rhagorol sy'n gallu trawsnewid bywydau a chymunedau. Rydym yn hyrwyddo, yn cysylltu, yn cefnogi ac yn tyfu mudiad cludiant cymunedol ym mhob rhan o'r DU.

Mae ein gwaith yng Nghymru yn rhan annatod o'r gwaith hwnnw. Mae gennym tua 100 o aelodau a llawer mwy o randdeiliaid ym mhob rhan o Gymru ac mae pob un ohonynt yn helpu i ddarparu trefniadau cludiant hygyrch a chynhwysol yn eu cymunedau. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, ac yn derbyn cyllid ganddynt er mwyn datblygu a darparu gwaith pwysig ledled Cymru.

Fel sawl mudiad a sector arall, mae COVID-19 wedi dod â heriau unigryw i faes cludiant cymunedol. Fodd bynnag, wrth fynd y tu hwnt i'r argyfwng hwn, bydd cludiant cymunedol mor bwysig ag erioed a bydd rôl allweddol i ni yn helpu ein haelodau i ailadeiladu a ffynnu yng Nghymru.

Rydym yn falch o fod yn recriwtio Cyfarwyddwr Cymru newydd, i arwain ein gwaith polisi a materion cyhoeddus yng Nghymru. Bydd deilydd y swydd yn ein helpu i gael dylanwad a bydd yn arwain agenda polisi eglur a fydd yn hyrwyddo allbynnau cludiant cymunedol a chefnogaeth i'r gwaith, ac yn rhoi gwasanaeth da i'n haelodau. Er bod llawer o'r materion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr y gwasanaeth a darparwyr cludiant yn gyffredin ar draws y DU, mae gan Gymru ei sefydliadau gwleidyddol a'i thirwedd wleidyddol ei hun, felly mae'n hollbwysig bod gennym arweinydd sy'n ysbrydoli ac yn dangos dychymyg i ddatblygu ein perthnasoedd ac yn symud ein hagenda polisi yn ei blaen yng Nghymru.

Rydym yn chwilio am arweinydd arloesol a chynhwysol a fydd yn ein helpu i fwrw ymlaen yda'n gwaith pwysig yn gwasanaethu cymunedau Cymru. Os yw'r her hon yn apelio atoch chi a bod gennych chi'r rhinweddau a'r potensial i ateb yr her, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Cofion gorau,

Bill Freeman

Bill Freeman
Prif Weithredwr

Beth yw Cludiant Cymunedol?

Mae cludiant cymunedol yn cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol, bod yn rhan o'u cymunedau a chael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau lleol. Mae'n cael ei ddarparu gan elusennau, grwpiau cymunedol a chyrff nid-er-elw eraill ac mae'n ffordd ddibynadwy a chydnerth o sicrhau y gellir diwallu'r ystod ehangaf o anghenion cludiant. Mae'r ffaith bod gwirfoddolwyr a defnyddwyr yn ymwneud cymaint â chreu a darparu'r gwasanaethau yn rhan annatod o hyn oll.

Mae'r gwasanaethau'n rhoi pobl yn y canol ac maent yn anelu at wasanaethu'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod mewn sefyllfa lle nad yw trafnidiaeth prif ffrwd yn rhoi'r gwasanaeth sydd ei angen iddynt, yn enwedig pobl sy'n llai symudol a rhai sy'n byw mewn ardaloedd llai poblog. Mae modd gwneud hyn trwy sicrhau gwasanaethau sy'n hygyrch ac yn hyblyg.

Mae teithiau sy'n ymateb i'r galw yn galluogi pobl i gyrraedd gwasanaethau pob dydd, megis y siopau neu'r ysbyty, ac mae bysiau cymunedol sydd ag amserlen yn dod â chymunedau i mewn i'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach. Mae'n golygu llawer mwy na bysiau mini; mae ein haelodau'n defnyddio nifer o fathau gwahanol o gerbydau i fynd â phobl i'r llefydd y maen nhw eisiau bod ac angen bod - i'r ysgol, i'r coleg, i'r gwaith, i ddigwyddiadau cymdeithasol neu at wasanaethau cyhoeddus.

Beth yw Cludiant Cymunedol?

Mae CTA yn gweithio gydag ystod eang o ddarparwyr cludiant cymunedol y gellir eu rhannu'n nifer o fathau gwahanol:

- Elusennau a grwpiau eraill a sefydlwyd yn benodol er mwyn darparu gwasanaethau cludiant nid-er-elw;
- Grwpiau cymunedol amlbwrpas sy'n cynnwys cludiant ymhlith nifer o wasanaethau 'hunangymorth cymunedol' gwahanol y maent yn eu darparu. Fel rheol, bydd rhain yn fudiadau angor cymunedol / seilwaith lleol;
- Cyrff lle mae cludiant yn atodol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu pwrpas cymdeithasol - mae hyn yn cynnwys cymunedau hunaniaeth, grwpiau penodol ar gyfer pobl ag anabledd / cyflwr iechyd hir-dymor, cymdeithasau mewn lifrai a chlybiau chwaraeon. Mae'n cynnwys sefydliadau addysg ac awdurdodau lleol hefyd.

"Ceir cydnabyddiaeth eang bod cludiant cymunedol yn fwy na mater o gael pobl o A i B - mae'n hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac yn brwydro yn erbyn ynysu cymdeithasol ac unigrwydd."

Emer Murphy, Swyddog Gweithredol Cymorth ac Ymgysylltu

Ein Haelodau

Mae yna ddarparwyr cludiant cymunedol o bob lliw a llun, yn cynnal gwahanol fathau o wasanaethau i gwrdd â gwahanol fathau o anghenion. Ond yr hyn sy'n gyffredin i bob un ohonynt yw eu bod yn benderfynol o ddarparu cludiant hygyrch a chynhwysol i bobl na fyddent, o bosib, yn gallu mentro allan fel arall. Rydym wedi nodi rhai enghreifftiau isod: gwasanaeth bws mini traddodiadol, cynllun ceir gwirfoddol, grŵp cymunedol a chynllun olwynion i'r gwaith - pob un ohonynt yn aelod gwerthfawr o'r CTA.

Badenoch and Strathspey CT - Aviemor

Mae Cludiant Cymunedol Badenoch a Strathspey yn ddarparwr cludiant cymunedol traddodiadol sydd wedi'i leoli yn ardal wledig Aviemor yn yr Alban. Mae BSCT yn cynnal gwasanaethau bws mini sy'n ymateb i'r galw, gan fynd â phobl i'r lleoedd y mae angen iddynt eu cyrraedd, yn ogystal â llwybrau bysiau cymunedol cofrestredig, gan ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd na fydd llwybrau masnachol yn eu cyrraedd.

Y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd - Abertawe

Mae'r Ganolfan Gymunedol Affricanaidd yn cynnal cynllun ceir cymunedol yn Abertawe sy'n darparu cludiant pwysig iawn i geiswyr lloches y ddinas. Mae cost trafnidiaeth gyhoeddus yn faich anferthol ar geiswyr lloches ac yn aml nid oes modd iddynt ei defnyddio. Mae'r Ganolfan Gymunedol Affricanaidd, a sefydlwyd yn 2017 gyda chymorth y CTA, yn ceisio newid hyn gyda chludiant hygyrch a fforddiadwy sy'n deall eu hanghenion.

The U-Turn Project - Belfast

Gr ŵp cymunedol ym Melffast yw'r Prosiect Tro Pedol, sy'n ceisio helpu pobl ifanc i gydio mewn dyfodol newydd trwy chwaraeon a ffitrwydd. Wedi iddynt godi arian ar gyfer bws mini newydd trwy gwblhau taith seiclo 185 milltir o amgylch Llundain, prynodd y grŵp fws mini yn 2017 ac maent yn gwneud defnydd effeithiol iawn ohono, yn mynd â phobl ifanc i'w cynghrair bêl-droed leol ac yn helpu pobl leol sy'n ddi-waith i fynychu hyfforddiant na fyddent yn gallu ei ddilyn fel arall.

South Yorkshire Wheels 2 Work - Sheffield

Wedi'i leoli gyda Chludiant Cymunedol Sheffield, mae Olwynion i'r Gwaith De Swydd Efrog yn un o gynlluniau olwynion i'r gwaith mwyaf y wlad. Mae'n darparu sgwteri ar fenthyciad tymor byr i bobl sy'n cael trafferth cyrraedd gwaith, hyfforddiant neu goleg oherwydd diffyg opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus addas neu fforddiadwy. Mae yna 150 o sgwteri'n cael eu defnyddio yn Ne Swydd Efrog ar hyn o bryd, yn bennaf gan bobl ifanc, i'w helpu i fanteisio ar gyfleoedd a fyddai allan o'u cyrraedd fel arall.

Ynglŷn â'r CTA

Cludiant hygyrch a chynhwysol - ein nod a'n gwaith.

Ein Gweledigaeth

Rydym eisiau gweld cymunedau ym mhob man yn creu ac yn rhannu eu cynlluniau eu hunain i ateb gofynion cludiant hygyrch a chynhwysol

Ein Cenhadaeth

Byddwn yn hyrwyddo, yn cysylltu, yn cefnogi ac yn tyfu mudiad cludiant cymunedol llewyrchus ym mhob rhan o'r DU.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi'n haelodau gyntaf

Rydym yn arwain gydag awdurdod a chyfrifoldeb

Rydym yn rhoi blaenoriaeth i symudedd a hygyrchedd

Rydym yn hyrwyddo gwirfoddoli

Mae'n golygon ar bethau mawr

Y CTA mewn Rhifau

"Pan fydd pobl yn gofyn ble rwy'n gweithio, rwy'n teimlo balchder mawr o gael dweud fy mod yn gweithio i gorff sy'n bodoli er mwyn cefnogi'r sector cludiant cymunedol. Mae gweithio gyda thîm o unigolion anhygoel, gweithgar ac ymroddgar yn golygu bod gweithio yn y CTA yn bleser. Mae bod yn rhan o dîm y CTA, yn cydweithio ledled y DU i gefnogi'r sector wrth iddynt greu a rhannu eu cynlluniau eu hunain i ateb gofynion cludiant hygyrch a chynhwysol, yn fy llenwi â balchder ynglŷn â'r cyfan rydym yn ei gyflawni."

Maxine van den Bergh
Cyfarwyddwr Gweithrediadau ac Adnoddau

"Mae gweithio i'r CTA yn wych oherwydd eich bod yn cael y cyfle i roi cymorth i hyrwyddwyr cymunedol anhygoel sy'n rhoi achubiaeth i'r bobl hynny nad ydynt yn gallu cael cludiant trwy unrhyw fodd arall. Rydych yn cael cefnogaeth gan gydweithwyr o bob rhan o'r DU ac yn gweithio ar amrywiaeth eang o brosiectau. Mae'n wych hefyd bod modd gweithio'n hyblyg ac o bell pan fydd angen, gan olygu ei bod yn rhwyddach cadw trefn ar ymrwymiadau eraill a dal i gyflawni'r gwaith.

Dylan Gallanders
Swyddog Gweithredol Cymorth ac Ymgysylltu

Mae gan y CTA tua

1,200

o aelodau ledled y DU, gyda tua 100 o'r rhain yng Nghymru.

Yn ogystal, mae gennym

18

aelod staff ledled y DU (mae 7 o'r rhain yng Nghymru).

Rydym wedi'n lleoli mewn

5

o swyddfeydd - ein prif swyddfa ganolog ym Manceinion a swyddfeydd eraill ym Melffast, Castell-nedd, Llandudno a Chaeredin.

Rydym yn cael ein llywodraethu gan fwrdd o

11

o ymddiriedolwyr; caiff 6 ohonynt eu dethol o blith aelodau'r CTA.

Ein hincwm blynyddol yn 2019/20 oedd

£1.1m

gyda mwy na chwarter ohono yn deillio o grantiau ac incwm prosiectau yng Nghymru.

Ein Hamcanion

Mae gennym nifer o amcanion, pob un ohonynt yn ymwneud â phedair elfen ein cenhadaeth. Mae gennym amcanion ychwanegol hefyd ynglŷn â'n gwaith y tu ôl i'r llenni er mwyn sicrhau ein bod yn addas i'r diben ac yn datblygu fel corff.

Hyrwyddo CC

Rydym am weld mwy o sylw'n cael ei roi i gludiant cymunedol a phrofiadau pob dydd y defnyddwyr wrth i bolisïau gael eu llunio. Mae hyn yn golygu dangos sut mae cludiant cymunedol yn berthnasol ac yn ymateb i feysydd polisi cyhoeddus allweddol a sut mae ein haelodau yn gwella ansawdd bywyd i bobl a theuluoedd yn eu cymunedau lleol.

Cysylltu CC

Rydym eisiau bod wrth galon rhwydwaith byrlymus o bobl a mudiadau sy'n dilyn cenhadaeth gymdeithasol ym maes cludo teithwyr.

Cefnogi CC

Rydym eisiau gweld ein haelodau a chyrff cymunedol eraill sy'n darparu cludiant yn gweithio gyda ni i hyrwyddo safonau ymarfer uchel a gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd diogel, cyfreithlon a gofalgar.

Tyfu CC

Byddwn wastad yn cadw llygad am gyfleoedd i ymestyn cyrhaeddiad ac effaith model cludiant cymunedol ac i roi buddsoddiad newydd ar waith fel bod modd i'r trawsnewid hwnnw ddigwydd.

Datblygu'r CTA

Rydym eisiau i bopeth a wnawn fod yn anhygoel bob amser. Rydym eisiau i bobl gael profiad o ansawdd uchel pan fyddant yn gweithio gyda ni, yn aelodau, rhanddeiliaid, staff neu gwirfoddolwyr.

Llywodraethu

Ein Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol yn y pen draw am berfformiad y CTA a bydd yn cynnal ei waith er mwyn sicrhau ein bod yn hyfyw'n ariannol; wedi'n llywodraethu'n iawn; ac yn cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau. Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn monitro perfformiad pob agwedd ar waith y CTA ac yn penderfynu ar faint o adnoddau a roddir er mwyn cwrdd â'n rhwymedigaethau ariannol a rhai eraill. Yn ogystal â'r cyfrifoldebau hyn, y Bwrdd sy'n cymeradwyo a chynnal ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd, yn datblygu strategaethau a pholisïau, yn sicrhau y cydymffurfir â'r gyfraith, ac yn cadw gorolwg cyllidol priodol

Mae'r Bwrdd yn cynnwys hyd at chwe ymddiriedolwr a enwebir gan yr aelodau a hyd at bum ymddiriedolwr a gaiff eu cyfethol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae pob un yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd a gallant sefyll ar gyfer tymor tair blynedd arall olynol. Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n apwyntio ei Gadeirydd, Trysorydd ac Is-gadeirydd. Rydym wrthi'n recriwtio Cadeirydd newydd i olynu'r un presennol a fydd yn camu'n ôl o'r swydd eleni.

Mae awdurdod a chyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn deillio o ddwy ffynhonnell:

1) Cyfraith Elusennol, sy'n gosod dyletswyddau penodol pob ymddiriedolwr elusen.

2) Ein Cyfansoddiad, sy'n amlinellu aelodaeth Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, y modd y caiff yr ymddiriedolwyr eu hapwyntio a'u pwerau.

Pwyllgorau

Mae tri is-bwyllgor yn cefnogi gwaith y bwrdd: Cyllid ac Archwilio, Polisi a Llywodraethu. Mae'r pwyllgorau hyn yn helpu i roi trosolwg a chraffu ar rannau penodol o'r elusen. Maent yn sicrhau bod mesurau gwirio a chadw balans priodol ar waith yn ogystal â rhoi amser i graffu ar yr agweddau allweddol hyn ar y gwaith a wnawn.

Ein Strwythur

Prif Weithredwr

	Polisi a'r Cenhedloedd	Gwasanaethau Aelodau a Rhaglenni	Cymorth Canolog
Ledled y DU	Cyfarwyddwr Polisi a'r Cenhedloedd Swyddog Gweithredol Polisi	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Aelodau Swyddog Gweithredol Cymorth ac Ymgysylltu Swyddog Gweithredol Datblygu Busnes	Cyfarwyddwr Gweithrediadau ac Adnoddau Swyddog Marchnata a Chyfathrebu Swyddog Cyllid Gweinyddwr
Gogledd Iwerddon	Cyfarwyddwr Gogledd Iwerddon		
Yr Alban	Director for Scotland	Support & Engagement Exec	
Cymru	Cyfarwyddwr Cymru	Swyddog Gweithredol Cymorth ac Ymgysylltu (x2) Rheolwr Prosiect Cydlynydd Prosiect (x2) Swyddog Gweithredol Cynorthwyo Prosiect	

Cymorth wedi'i gontractio

Cyfarwyddwr Cyllid
Rheolwr Cyllid
Clerc Llywodraethu
Ymgynghorydd AD

Ynglŷn â'r Rôl

Teitl Swydd:	Cyfarwyddwr Cymru
Lleoliad:	Mae ein prif swyddfa a'r rhan fwyaf o'r tîm yng Nghymru wedi'u lleoli yng Nghastell-nedd (SA11 1LF). Fel nifer o gyrff eraill, rydym yn gweithio o bell ar hyn o bryd ac rydym yn rhagweld bod hyn yn debygol o barhau i mewn i 2021. Yn y tymor hirach, byddem yn hapus i ystyried bod ymgeiswyr naill ai wedi'u lleoli yng Nghastell-nedd neu'n gweithio o gartref. Fodd bynnag, disgwylir y bydd amser rhesymol yn cael ei dreulio gyda'r tîm yng Nghastell-nedd ac hefyd yng Nghaerdydd a bydd rhywfaint o deithio'n achlysurol i'n swyddfeydd eraill ledled y DU.
Cyflog:	Graddfa F - £34,087 - £38,566
Cytundeb:	Llawn amser; 35 awr yr wythnos (ystyrir cyfleoedd ar gyfer gweithio hyblyg)
Yn Adrodd yn Uniongyrchol:	Mae strwythur rheoli ar ffurf matrics yn golygu bod cyfrifoldebau rheolwr llinell dros Swyddogion Gweithredol Cymorth ac Ymgysylltu a leolir yng Nghymru a Rheolwr Prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael eu rhannu gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Aelodau.

Pwrpas y Rôl

Sicrhau bod y CTA yn ddylanwadol ac yn effeithiol mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir ar faterion sy'n gysylltiedig â pholisi cludiant yng Nghymru.

Bydd deilydd y swydd yn arwain ar ddatblygu a darparu gwaith ymchwil, polisi a materion cyhoeddus y CTA yn Nghymru. Bydd yn sicrhau bod ein polisi wedi'i lunio mewn modd fydd yn creu gwerth i'n haelodau ac yn hyrwyddo eu hamcanion. Bydd yn arloesi ac yn ceisio datrysiadau ac opsiynau polisi creadigol ar gyfer cludiant. Bydd y datrysiadau hyn yn addas ar gyfer y cyd-destun penodol yng Nghymru ond bydd rhaid iddynt fod yn gyson hefyd â gwaith polisi ehangach yn y DU a datblygiadau ar draws yr holl genhedloedd datganoledig.

Cyfrifoldebau

Strategaeth a Datblygu

- Arwain ar ddatblygu a darparu gwaith ymchwil, polisi a materion cyhoeddus y CTA yn Nghymru.
- Sicrhau bod cynlluniau hir-dymor effeithiol ar waith yng Nghymru sy'n cefnogi gweithredu strategaeth y CTA - bydd hyn yn cynnwys sylw penodol i waith yn hyrwyddo CC.

Arwain a Rheoli

- Helpu i feithrin diwylliant sy'n rhoi'r 'aelodau'n gyntaf' ar draws y CTA trwy sicrhau bod gwaith polisi yn gyson ag anghenion ac amcanion ein haelodau.
- Sicrhau cysondeb rhwng ein gwaith yng Nghymru a strategaeth y CTA - gan alluogi'r tîm i ddeall yn eglur sut maent yn cyfrannu at genhadaeth a gweledigaeth y CTA.
- Datblygu a rheoli polisi sy'n gweithio ar lefel uchel a gwaith materion cyhoeddus yng Nghymru.

Ynglŷn â'r Rôl

Darparu

- Craffu ar ddatblygiadau polisi sy'n codi ac asesu eu heffaith debygol ar gludiant cymunedol yng Nghymru a diddordeb ehangach y CTA mewn gwneud cludiant yn hygyrch ac yn gynhwysol i bawb.
- Casglu canfyddiadau a gwybodaeth gan aelodau'r CTA i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni gwaith polisi a materion cyhoeddus y CTA yng Nghymru a ledled y DU.
- Arwain ar ddatblygu ymatebion y CTA i ymgynghoriadau cenedlaethol, adroddiadau polisi a chyhoeddiadau a monitro / adrodd ar eu canlyniadau.
- Darparu briffiau polisi, dadansoddiadau a chrynodebau o newidiadau i bolisïau a deddfwriaeth cludiant a'u heffaith ar aelodau'r CTA yng Nghymru ar gyfer cynulleidfaoedd mewnol ac allanol.
- Canfod cyfleoedd yng Nghymru i'r CTA godi proffil cludiant cymunedol a'n diddordeb ehangach mewn gwneud cludiant yn hygyrch ac yn gynhwysol i bawb.
- Cymryd rhan mewn gweithgorau a phartneriaethau er mwyn cyfrannu at ddatblygiad polisi cludiant a pholisi cymdeithasol/cyhoeddus perthnasol yng Nghymru.
- Mynychu a siarad mewn digwyddiadau a chynadleddau a drefnir gan y CTA a chyrff eraill er mwyn hyrwyddo cludiant cymunedol yng Nghymru.
- Drafftio cynnwys perthnasol ar gyfer sianeli cyfathrebu'r CTA.
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Aelodau i sicrhau bod gan y CTA adnoddau digonol i allu gweithio gyda'n haelodau a gweithredwyr eraill yng Nghymru i hyrwyddo safonau ymarfer uchel mewn cludiant cymunedol a'u cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau rhagorol.
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu rhaglenni a ariennir gan grantiau.
- Canfod a gwerthuso cyfleoedd i gael cyllid a rhagolygon ar gyfer ennill ffioedd yn y dyfodol.

Rhanddeiliaid

- Sefydlu a meithrin perthynas gadarnhaol a chynhyrchiol gyda rhanddeiliaid allweddol o fewn sefydliadau gwleidyddol, y diwydiant trafnidiaeth, cyrff cynrychioladol eraill a'r sector gwirfoddol yng Nghymru.
- Cynnal cronfa ddata o gysylltiadau materion cyhoeddus allweddol yng Nghymru a sicrhau y caiff perthynas gyda nhw ei rheoli a'i monitro'n effeithiol.
- Cynnal cyswllt gyda'r aelodau a chynrychiolwyr yr aelodau (ar Fyrddau, pwyllgorau ac ati).
- Partneriaid gwasanaeth a dylanwadwyr allweddol sy'n cynnal darpariaeth a gweithgareddau ar draws y sector CC yng Nghymru.
- Cyllidwyr a phartneriaid masnachol, lle bo angen.

Arall

- Mynychu cyfarfodydd rheoli, cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau yn ôl yr angen.
- Bod yn eiriolwr brwd dros ein gwerthoedd.
- Cynnal eich hunan yn weinyddol.
- Cynnal eich rhwydweithiau proffesiynol eich hunan a hyrwyddo'r CTA yn lleol ac yn genedlaethol. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill sy'n gyson â'r swydd.
- Gall fod angen gweithio ar rai penwythnosau a gyda'r nos.

Manyleb Person

	Hanfodol	Dymunol
Cymwysterau	• Tystiolaeth o ddatblygu proffesiynol parhaus.	• Cymhwyster perthnasol i'r rôl h.y. materion cyhoeddus, datblygu polisi, dulliau ymchwil, ymgyrchu a.y.y.b.
Profiad	• Profiad helaeth o weithio mewn amgylchedd polisi / materion cyhoeddus. • Casglu canfyddiadau a gwybodaeth gan randdeiliaid a'u defnyddio i lywio datblygiad polisi a/neu wasanaethau. • Cyfrannu at ddatblygu polisi, a hynny'n ddelfrydol mewn perthynas â grwpiau sydd dan anfantais neu'n cael eu tangynrychioli yn y gymuned. • Arwain a chymryd rhan mewn mentrau cydweithredol gyda chyrff eraill trwy bartneriaethau a chynghreiriau. • Profiad helaeth o weithio gyda rhanddeiliaid uwch gan gynnwys Gweinidogion, aelodau'r Senedd, Awdurdodau Lleol a Chyhoeddus.	• Gweithio yn neu gyda'r sector cludiant cymunedol a/neu faterion sy'n gysylltiedig â pholisi / gwasanaethau cludiant. • Gweithio mewn amgylchedd aelodau a/neu sector wirfoddol. • Gweithio gyda a chefnogi Bwrdd a/neu bwyllgorau gwneud penderfyniadau. • Gweithio gyda gwleidyddion ac Awdurdodau Cyhoeddus.
Gwybodaeth Sgiliau a Galluoedd	• Sgiliau TG cryf - yn cynnwys MS Office. • Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o waith y Senedd ac Adrannau Llywodraeth gyda phrofiad diweddar o ffurfio perthynas gynhyrchiol gyda'r sefydliadau hyn. • Sgiliau ysgrifennu rhagorol a phrofiad o'u rhoi ar waith i greu polisi, canllawiau, adroddiadau a cheisiadau cyllid. • Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth a materion cymhleth a dwyn casgliadau ohonynt sy'n berthnasol i'r gynulleidfa. • Y gallu i siarad Cymraeg neu ymrwymiad i ddysgu Cymraeg. • Sgiliau rhyngbersonol rhagorol. • Sgiliau trefnu rhagorol - y gallu i weithio ar eich liwt eich hun ac i flaenoriaethu llwyth gwaith.	• Gwybodaeth weithredol dda o'r fframwaith cyfreithiol a gwleidyddol y mae trafnidiaeth cyhoeddus a chludiant cymunedol yn rhan ohono yng Nghymru. • Siaradwr cyhoeddus effeithiol, yn meddu ar y gallu i gysylltu ag ystod o gynulleidfaoedd gwahanol. • Sgiliau dadansoddi data a rheoli gwybodaeth. • Yn rhoi sylw da i fanylion ac yn gallu cynhyrchu gwaith i safonau uchel o ran cywirdeb. • Gwybodaeth sylfaenol am ofynion llywodraethu elusen.
Gwerthoedd ac Ymddygiad	• Ymrwymiad y gellir ei ddangos i werthoedd ein mudiad. • Ymrwymiad cryf i, a dealltwriaeth o egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.	

Gweithio yn y CTA

Tâl a Buddion

Dyma'r pecyn tâl a buddion:

- Pecyn tâl yn cynnwys cyflog blynyddol o £34,087 - £38,566 (CTA Graddfa F);
- Cynllun pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio yn cynnwys cyfraniadau gan y cyflogwr hyd at 5%.
- Cynllun Tâl Salwch y CTA sy'n rhoi taliadau'n ychwanegol at Dâl Salwch Statudol. Mae hawl i'r wyth wythnos cyntaf ar dâl llawn, yr wyth wythnos nesaf ar hanner tâl;
- Yswiriant Bywyd Grŵp, ar hyn o bryd, mae'r swm deirgwaith eich cyflog blynyddol.
- 25 diwrnod o wyliau blynyddol, yn ychwanegol at wyliau cyhoeddus a dyddiau ychwanegol rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Mae'r hawl blynyddol yn cynyddu dros amser hyd at fwyafswm o 29 diwrnod.
- System amser fflecsi sylfaenol.
- Agwedd hyblyg tuag at waith - rydym yn annog ac yn cefnogi gwahanol ffyrdd o weithio er mwyn cyflawni ein hamcanion fel cyfanwaith.

Diversity

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gweithlu yn adlewyrchu'r amrywiaeth a geir yn y byd a'r cymunedau rydym wedi'u lleoli ynddynt. Rydym yn annog ceisiadau gan bob unigolyn beth bynnag fo'u rhyw, oed, gwlad gartref, cefndir ethnig, rhywioldeb, credoau crefyddol neu anabledd. Byddem yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bobl groenliw.

"Mae'r CTA yn lle gwych i weithio am sawl rheswm, ond yn bennaf oherwydd bod aelodau staff yn cael cefnogaeth dda i gyflawni eu rolau, tra bod ganddynt ryddid i fynegi eu hunain ac i dynnu ar a defnyddio eu sgiliau, eu profiadau a'u hangerdd er budd aelodau'r CTA a'r sector CC yn ehangach. Yn ogystal â hynny, mae gweithio i'r CTA yn eich galluogi i gyfrannu'n uniongyrchol at gynaliadwyedd a datblygiad y sector ac rwy'n gwerthfawrogi'n arbennig fy mod i'n gweithio gydag aelodau i'w helpu i ddarparu gwasanaethau cludiant cymunedol arloesol a chyffrous sy'n newid bywydau cymaint o bobl."

David Brooks
Cydlynydd Prosiect De Cymru

Sut i Ymgeisio

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 12:00 hanner dydd, ddydd Llun, 12fed Hydref 2020.

Cadwch y dyddiadau canlynol yn eich dyddiadur pan fyddwch yn gwneud cais:

Gweithred	Dyddiad
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau	12:00 hanner dydd, dydd Llun 12fed Hydref
Cyfweliadau rhestr hir	Dydd Mercher 21ain Hydref
Cyfweliadau Terfynol a Diwrnod Dethol	Dydd Llun 2il Tachwedd

Dylai'ch cais gynnwys:

- **Datganiad personol sy'n dangos sut rydych chi'n ateb y gofynion a osodir yn adran *'Profiad'* y Fanyleb Person.**
- **CV manwl, cyfoes yn cynnwys eich holl hanes cyflogaeth ac arbenigedd perthnasol.**
- **Ffurflen Monitro Cydraddoldeb wedi'i chwblhau - gellir lawrlwytho copi o'n gwefan.**

Anfonwch eich cais i'n partneriaid recriwtio Atkinson HR Consulting, trwy e-bost iatkinson.hrconsulting@gmail.com

I gael trafodaeth anffurfiol gychwynnol ynglŷn â'r rôl, cysylltwch yn y man cyntaf â:

Graham Atkinson: atkinson.hrconsulting@gmail.com

cta

community transport association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL